

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD / MEETING 15/5/2017**

PRESENNOL: Cyng. R G Parry (Cadeirydd), Mrs E Jones (Is-gadeirydd), Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts	PRESENT: Councillors R G Parry (Chairman), Mrs E Jones,(Vice Chairman) Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts
YMDDIHEURIAD: Derbyniwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb oddi wrth Mrs H Williams.	APOLOGIES: Apologies for her absence was received from Mrs H Williams.
DATGANIAD DERBYN SWYDD: Derbyniwyd y datganiadau derbyn swydd wedi'u llofnodi'n briodol gan y 6 aelod oedd yn bresennol. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi arddangos yr hysbyseb priodol cyntaf ar gyfer y 3 sedd wag ynghyd a'i roi ar wefan y Cyngor.	DECLARATION OF ACCEPTANCE OF OFFICE: Declarations duly signed received from the 6 members present. The Clerk confirmed that she had duly displayed the first notice regarding the 3 vacant seats and had it uploaded onto the Council's website.
COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3 Ebrill 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Mrs E Jones yn cynnig, Mrs C Lloyd yn eilio.	MINUTES: Minutes of the meeting held on 3 April 2017 were accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs E Jones, seconded by Mrs C Lloyd.
DATGANIADAU DIDDORDEB: Dim.	DECLARATIONS OF INTEREST: None.
MATERION YN CODI:	MATTERS ARISING:
1. Mr D R Williams. Derbyniwyd ymateb oddi wrth yr Heddlu am y goryrru trwy'r pentref. Penderfynwyd anfon copi at Mr D R Williams.	1. Mr D R Williams. Reply received from the police regarding the speeding through the village. It was decided to send a copy to Mr. D R Williams.
2, Maes Chwarae Plant. Derbyniwyd copi o'r gwiriadau wythnosol a wnaethpwyd ar y teclynnau yn y maes chwarae plant hyd at 26/3/2017 ynghyd a chopi o adroddiad RoSPA dyddiedig 28/6/2016.	2. Children's Playing Field. Copy of the weekly checks carried out on the equipment in the children's playing field up to 26/3/2017 together with a copy of the RoSPA report dated 28/6/2016..
3. Hysbysfwrdd. Y Clerc wedi derbyn caniatâd Pwyllgor yr Henoed i osod hysbysfwrdd ar wal allanol Canolfan yr Henoed. Hysbysfwrdd wedi'i archebu ar gost o £664.80 yn cynnwys TAW. Dylid ei dderbyn ymhen 3 wythnos.	3. Noticeboard. The Clerk had obtained the Pensioners' Committee consent to putting the noticeboard on the external wall of the Pensioners' Hall. Noticeboard had been ordered at a cost of £664.80 including VAT. It should be received within 3 weeks.

<p>4. Holiadur Cyngor Sir Ynys Môn ar Adolygu'r Cynllun Gwellau Hawliau Tramwy 2017 - Cynghorau Tref a Chymuned. Cyflwynodd Mrs S Jones gopi o'r Holiadur a lenwodd ar ran y Cyngor Cymuned. Diolchwyd iddi gan y Cadeirydd.</p>	<p>4. Anglesey County Council's Questionnaire on the Review of Rights of Way Improvement Plan 2017 – Town and Community Councils. Mrs S. Jones handed in a copy of the questionnaire she had completed on behalf of the Community Council. She was thanked by the Chairman.</p>
<p>GOHEBIAETH:</p>	<p>CORRESPONDENCE:</p>
<p>1. Cyngor Sir Ynys Môn. (a) Fforwm Cyswllt. Hysbysu newid dyddiad y cyfarfod i'r 12 Mehefin 2017.</p>	<p>1. Isle of Anglesey County Council/. (a) Liaison Forum. Notification of change of date of meeting to 12 June 2017.</p>
<p>(b) Pwyllgor Safonau. Adolygiad y Pwyllgor Safonau o gofrestrau diddordeb aelodau. Trafodwyd yr adroddiad a rhoddwyd copi ohoni i aelodau'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r Clerc anfon copi o'r cofnodion hyn at y Pwyllgor Safonau yn unol â'u gofynion.</p>	<p>(b) Standards Committee. Review of the register of members' interest. The report was discussed and a copy given to every member of the Community Council. The Clerk was requested to forward a copy of these minutes to the Standards Committee as per their requirement.</p>
<p>(c) Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith. Er gwybodaeth.</p>	<p>(c) Executive's forward work programme. For information.</p>
<p>(d) Penderfyniadau cynllunio fel a ganlyn: Cais Rhif 48C203. Caniatâd i gais ôl-weithredol i addasu ac ehangu yn 31 Maes Meurig,</p>	<p>(d) Planning decisions as follows: App.No. 48C203. Retrospective application for alterations and extensions at 31 Maes Meurig was granted.</p>
<p>2. Un Llais Cymru.</p>	<p>2. One Voice Wales.</p>
<p>(a) Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth: Papur Gwyn- Diwygio Llywodraeth Leol; Adroddiad Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaiad Betsi Cadwaladr; Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2017; Bwletin gwybodaeth mis Mawrth 2017; Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Hyfforddiant gynefino I Gynghorwyr Newydd; Ffurflen Fonitro Cod Dwy Haen; Maniffesto Un Llais Cymru Cynghorau Tref a Chymuned</p>	<p>(a) The following correspondence for information only: White Paper Reform of Local Government; Report on Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group; Proposals for AGM 2017; March Information Bulletin; National Assembly for Wales' Expert Panel on Assembly Electoral Reform; New Councillor Induction Training; Two Tier Code Annual Monitoring form; One Voice Wales Community and Town Councils' Manifesto;</p>
<p>(b) Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref A Chymuned. Trafodwyd a mabwysiadwyd y Model uchod.</p>	<p>(b) Model Local Resolution Protocol for Community and Town Councils. The model was discussed and adopted.</p>
<p>3. Swyddfa Archwilio Cymru. Trafodwyd a derbyniwyd y llythyr oddi</p>	<p>3. Wales Audit Office. The letter from the Assistant Auditor General was</p>

wrth yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol er gwybodaeth.	discussed and accepted for information.
4. Hwylusydd Tai Gwledig. Eisiau cyflwyno canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd yn y pentref. Penderfynwyd gwahodd Mr Dylan Owen i gyfarfod nesaf y Cyngor a darparu slot o 15 munud ar ei gyfer. Cynnig Mr R G Parry, eilio Mrs E Jones.	4. Rural Housing Enabler. Request to present the results of the survey conducted in the village. It was decided to invite Mr Dylan Owen to the next meeting of the Council and to give him a 15 minute slot. Proposed by Mr R G Parry, seconded by Mrs E Jones.
5. PCS-UK - Diffribilydd Cymunedol. Cynigiodd Mrs S Roberts fod y Cyngor yn gofyn am bris ar gyfer yr uchod. Eiliwyd gan Ms M E Evans. Pawb yn cytuno. Gofynnwyd i'r Clerc geisio pris.	5. PCS-UK – Community Defribillator. Mrs S Roberts proposed that we get a quote for the above, seconded by Ms M E Evans. Agreed by all. The Clerk was requested to get a quote.
6. Mike Day J.A.C.S. UK Ltd. Arwyddion mynedfa i'r pentref. Cynigiodd Mrs E Jones ein bod yn gofyn am bris. Eiliwyd gan Mrs S Roberts. Gofynnwyd i'r Clerc geisio pris.	6. Mike Day J.A.C.S. UK Ltd. Village Gateways. Mrs E Jones proposed that we gate a quote for the above seconded by Mrs S Roberts. The Clerk was requested to get a quote.
ARIANNOL:	FINANCIAL:
1. Anfoneb I law oddi wrth Zurich Municipal Insurance ar gyfer yswiriant blynyddol y Cyngor ar gyfer 2017/18. Trafodwyd y pris newydd a phenderfynwyd derbyn y pris. Cynnig Mrs C Lloyd, eilio Mrs E Jones. Y Clerc I dalu £488.76.	1. Invoice from Zurich Municipal Insurance renewal of annual insurance 2017/2018. The price was discussed and it was decided to accept. Proposed by Mrs C Lloyd, seconded by Mrs E Jones. The Clerk to pay £488.76.
2. Derbyniwyd £2166.67 - taliad cyntaf y praecept am y flwyddyn 2017/2018.	2. Received £2166.67 – first praecept payment 2017/2018.
UNRHYW FATER ARALL:	ANY OTHER MATTER:
1. Llwybrau Cyhoeddus. Amser cyflawni'r daith gerdded flynyddol o gwmpas llwybrau cyhoeddus y pentref. Yn ôl yr arfer, penderfynwyd gadael y trefniadau yn nwylo Mrs S Jones.	1. Public Footpaths. Time to conduct the annual walk around the the village public footpaths. It was decided to leave the arrangements in the capable hands of Mrs S Jones.
CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 12 Mehefin 2017 yng Nghanolfan yr Henoed am 7pm.	NEXT MEETING: The next meeting will be held on 12 June 2017 at 7pm at the Pensioners' Hall.